**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Dydd Mercher, 15 Medi 2021**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Elaine Evans, Bryan Davies, Lyndon Lloyd MBE, Wyn Thomas, Ivor Williams, Dan Potter, Marc Davies, Elizabeth Evans (Sylwedydd).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ray Quant MBE, (Dirprwy Arweinydd y Cyngor), Rhodri Evans, Gareth Lloyd, Catherine Hughes, Alun Williams.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Partneriaethau a Pherfformiad, Lynne Walters, Swyddog Partneriaethau, Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Michael Smith, Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil. Alison Hodgson, Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol, Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ein Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Hannah Rees, Swyddog Llywodraethu, Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau, Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, Iona Davies a Dafydd Williams, Cyfieithwyr.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Peter Skitt, Cyfarwyddwr Sir, Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda/ Cyfarwyddwr Rhaglen Cydbwyllgor Canolbarth Cymru.

(10.00 am - 12.03 pm)

**26 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Mark Strong am na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**27 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu.

**28 Diweddariad ynghylch Cylch Caron**

Croesawodd y Cadeirydd Nerys Lewis a Peter Skitt i'r cyfarfod. Esboniodd Nerys y sefyllfa fel a ganlyn. Wedi i Gymdeithas Dai Canolbarth Cymru (Barcud wedi hynny) roi'r gorau i fod yn bartner datblygu, drwy gydsyniad, nodwyd bod yr holl bartneriaid eraill yn parhau yn gwbl ymrwymedig i

ddarparu Canolfan Adnoddau Integredig yn Nhregaron, sef Cylch Caron. Esboniodd Nerys hefyd i Peter Skitt arwain y prosiect ers i Sue Darnbrook, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ymddeol fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol. Hysbysodd Peter Aelodau'r Pwyllgor fod gweithgor o swyddogion y Bwrdd Iechyd a Swyddogion y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru'r achos busnes ar hyn o bryd, yn barod ar gyfer bwrw ymlaen â'r cynllun. Y bwriad yw cychwyn aildendro am bartner datblygu yn ystod tymor yr hydref 2021. Cam nesaf y prosiect partneriaeth fydd trefnu digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' er mwyn ailsefydlu'r broses o ddenu partner datblygu newydd. Bydd proses dendro ffurfiol ar waith wedi hynny.

Yna, rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau ac atebwyd y cwestiynau hynny gan y Swyddogion a oedd yn bresennol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad. Diolchodd y Cadeirydd i Peter Skitt a Nerys Lewis am fynychu'r cyfarfod ac am ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Gylch Caron. Cynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad arall ymhen 6/8 mis, yn dilyn y digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' a'r broses dendro ffurfiol. Cytunwyd i hyn

**29 Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021 ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21**

Croesawodd y Cadeirydd Diana Davies a Lynne Walters i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bryan Davies at bryder y dylid ystyried ei godi mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol, sef pryder sy'n ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaeth y Cynghorydd Davies gais i'r pryder hwn gael ei drafod mewn Pwyllgor Craffu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi caniatâd i Ddŵr Cymru ollwng carthion heb eu trin i afonydd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at enghraifft yn ei ward, sef yr Afon Llethi, Llanarth ac enghraifft arall yng Ngilfachreda. Mae'r afon hon yn llifo i'r môr rhwng Traeth Gwyn a Chei Bach. Cafwyd rhybudd ar y cyfryngau cymdeithasol yr wythnos hon i'r cyhoedd beidio ag ymdrochi yn y môr oherwydd llygredd!

Cododd y Cynghorydd Davies bryder arall a oedd yn gysylltiedig â'r pryder uchod, sef lefelau uchel o ffosffadau yn afon Teifi a'r afonydd / nentydd sy'n llifo iddi. Mae ceisiadau cynllunio sydd yn y llefydd hyn yn wynebu proses hir oherwydd rheolau Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n effeithio ar ddwy ran o dair o Geredigion. Oni ddylai Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru fod yn unioni'r sefyllfa yn hytrach na beio'r ffermwyr neu'r datblygwyr?

Cytunwyd y byddai Diana Davies yn archwilio cysylltiadau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac yn nodi'r pryder hwn mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

Cyflwynodd Lynne Walters gofnodion drafft cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021, adroddiad pob un o

Grwpiau Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar gyfer 2020-2021.

Roedd llawer o gwestiynau ac fe'u hatebwyd yn eu tro gan y Swyddogion. Tynnwyd sylw at y ffaith hefyd bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer ymgysylltu er mwyn i'r wybodaeth honno fod yn sail i'r Asesiad Llesiant Lleol nesaf. Maent am gasglu gwybodaeth am lesiant pobl a chymunedau lleol, yn awr ac i'r dyfodol. Gall llawer o bethau ddylanwadu ar lesiant unigolion a chymunedau, megis ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae gwybodaeth am yr ymgysylltiad wedi ei hanfon at bob Cynghorydd, Cyngor Cymuned a Chyngor Tref a rhanddeiliaid eraill er mwyn iddynt gyfrannu. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r Holiadur Llesiant Rhanbarthol yw 8 Hydref 2021.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol:

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

1. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021;
2. Derbyn yr adroddiad diweddaraf ar gyfer pob un o Grwpiau Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel y'i cyflwynwyd i'r BGC;
3. Derbyn Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion am y flwyddyn 2020-21.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â phwyntiau 1-3 uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i Diana Davies a Lynne Walters am fynychu'r cyfarfod ac am eu cyflwyniad.

**30 'Ceredigion Teg a Chyfartal' - Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-21**

Croesawyd Michael Smith i gyflwyno'r adroddiad.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn a chefnogi Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 a gwneud argymhellion fel y bo'n briodol pan gyflwynir yr adroddiad i'r Cabinet ar 5 Hydref 2021.

Cytunodd yr aelodau i dderbyn Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 ac awgrymwyd y dylai'r Cabinet ei gefnogi fel y'i cyflwynwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Michael Smith am fynychu'r cyfarfod ac am ei gyflwyniad.

**31** **Drafft ar yr Adroddiad Blynyddol 2020/21 yr Amcanion Llesiant a Gwella**
Croesawyd Rob Starr ac Alison Hodgson i'r cyfarfod. Cyflwynodd Rob Starr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020/2021.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau ar Fersiwn Ddrafft Adroddiad Blynyddol yr Amcanion Llesiant a Gwella am y flwyddyn 2020-2021 cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i Rob Starr ac Alison Hodgson am fynychu'r cyfarfod ac am eu cyflwyniad.

**32** **Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA')**
Croesawodd y Cadeirydd Elin Prysor a Hannah Rees i'r cyfarfod
Cyflwynodd Hannah yr adroddiad gan hysbysu aelodau'r pwyllgor na fu unrhyw weithgarwch RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 12 Awst 2021. Mae Swyddogion Awdurdodi wedi cadarnhau nad ydynt wedi ystyried unrhyw geisiadau RIPA yn ystod y cyfnod hwn. Cyfeiriodd Hannah at Bolisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnu RIPA (dogfen ddrafft – atodiad 1 papurau'r agenda) sy'n cynnig crynodeb o'r newidiadau arfaethedig. Yna, cyfeiriodd yr Aelodau at Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA (atodiad 2 papurau'r agenda) a defnyddio'r rhyngrwyd/y cyfryngau cymdeithasol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol:

1. Nodi cynnwys yr Adroddiad;
2. Nodi na fu unrhyw weithgarwch RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 12 Awst 2021; a
3. Nodi cynnwys fersiwn ddiwygiedig ddrafft y Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau RIPA (Atodiad 1) a'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA drafft (Atodiad 2), ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r dogfennau hyn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i (1) nodi cynnwys yr adroddiad (2) nodi na fu unrhyw weithgarwch RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 12 Awst 2021; a; (3) nodi cynnwys fersiwn ddiwygiedig ddrafft y Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau RIPA Corfforaethol a'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA drafft ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r dogfennau fel y'u cyflwynwyd.

Diolchodd Elin Prysor i Hannah am y gwaith yr oedd hi wedi ei wneud ers iddi ddechrau yn ei swydd 12 mis yn ôl. Diolchodd Hannah i Elin am ei geiriau caredig a diolchodd hefyd i Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol ac Anne-Louise Davies, Swyddog Safonau Masnach am eu cyfraniad a'u cymorth..

Diolchodd y Cadeirydd i Elin Prysor a Hannah Rees am fynychu'r cyfarfod ac am gyflwyno'r adroddiad.

**33 Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2020/21**

Croesawyd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Sian Howys, i gyflwyno'r Adroddiad Diogelu am chwarter 4, 2020/2021.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a lefel y gweithgarwch yn yr Awdurdod Lleol, fel bod y modd y trefnir ac y rheolir gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'r asiantaethau partner yn cael ei fonitro.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r tîm am eu gwaith gwerthfawr a pharhaus yn ystod y pandemig. Ategwyd hyn gan Aelodau'r Pwyllgor. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i Sian Howys am fynychu'r cyfarfod ac am ei chyflwyniad.

**34 Rhaglen Flaen Ddrafft**

Darparodd Cadeiryddion pob Pwyllgor wybodaeth yn eu tro am y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y maen nhw'n eu cadeirio.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i roi ystyriaeth i Gasglu Gwastraff yng nghyfarfod y Pwyllgor Cymunedau Ffyniannus ym mis Ionawr 2022.

**35 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-lynu a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny**

Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Davies fod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod ac eiliodd y Cynghorydd Dan Potter ei gynnig. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion hynny.

**36 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd ei fod er sylw brys y Pwyllgor**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

Diolchodd y Cynghorydd Rowland Rees-Evans, Cadeirydd, i Aelodau'r Pwyllgor am fynychu'r cyfarfod a diolchodd hefyd i'r Swyddogion am gyflwyno'r wybodaeth yn glir ac yn gryno. Diolchodd i bob swyddog am sicrhau bod y cyfarfod wedi mynd yn llyfn.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 1 Rhagfyr 2021**

**Cadeirydd:_______________**

**Dyddiad:_________________**